## 12 Diwydiant Pysgota Cregyn Gleision Conwy

Yr adeilad gwyn ger ochr draw y cei yw cyfleuster puro cregyn gleision Conwy. i

Bu diwydiant cregyn gleision yma ers cyfnod y Rhufeiniaid a heddiw mae cregyn gleision Conwy yn haeddiannol enwog. h

Rhoddodd Syr Richard Wynn berl Conwy i Frenin Charles II yn ôl y sôn, ac mae dal i fod yn Nhlysau'r Goron. Yn oes Fictoria hwyliodd stemars olwyn o Gonwy i fyny'r afon i Drefriw, ble bu i dwristiaid fwynhau dyfroedd y Sba. Daeth y stemars i ben gyda dechrau'r Ail Rhyfel Byd ac mae'r afon bellach wedi llenwi â llaid , er gallwch ddal i fwynhau taith ar gwch modur hyd at bont Tal-y-Cafn.

***Cerddwch heibio'r orsaf bad achub tuag at y cerflun cregyn gleision ac angor.*** h

O fan hyn mae gennych olygfa dda o'r cob (y llain denau o dir rhwng pontydd Conwy) a adeiladwyd gan Thomas Telford ar gyfer ei bont.

***Trowch yn ôl i adael y cei ger Swyddfa'r Harbwr Feistr a'r giât cilddor.***



COFEB ANGOR



CREGYN GLEISION

© Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



PROSES BURO CREGYN GLEISION AR ABER AFON CONWY TUA 1924

© Trwy garedigrwydd Gwasanaeth Archifau Conwy



Y TŶ LLEIAF YM MHRYDAIN

© Hawlfraint y goron (2016) Croeso Cymru

## 11 Y Tŷ Lleiaf ym Mhrydain

***Ar y chwith mae'r Tŷ Lleiaf ym Mhrydain.*** h

Yn mesur dim ond 180cm x 300cm (72" x 122") daeth i fodolaeth pan adeiladwyd tai ar hyd y muriau o bob pen. Nid oeddent yn cyfarfod yn hollol a llenwyd y bwlch gyda thŷ bach.

Roedd rhywun yn byw yno tan 1900, a'r preswylydd olaf oedd pysgotwr 6 troedfedd. Roedd y bythynnod hardd pysgotwyr yn y cei hyd at furiau'r dref. Roedd rhif ddeuddeg yn arfer bod yn dafarn y Royal Oak. Roedd y blaendraeth yma wedi ei amddiffyn gan dŵr hir, sydd wedi hen ddiflannu, ac roedd muriau'r dref yn cyrraedd y dŵr.

Os oes gennych chi amser, cerddwch drwy'r bwa, i fyny'r allt fer a thrwy giatiau Bodlondeb, fe welwch gyn plasty (bellach yn swyddfeydd y cyngor) wedi ei amgylchynu gan barcdir a choetir - lle braf i fynd am dro neu bicnic (5 munud o gerdded). Fel arall, gallwch gerdded wrth ochr y lan i'r marina newydd (20 munud o gerdded), wedi ei adeiladu ar ôl i adrannau o'r twneli ar gyfer ffordd osgoi'r A55 gael eu paratoi yno. Cafodd Porthladdoedd Mulberry, a ddefnyddiwyd yn y glaniadau D-Day, a chafwyd eu prototeipio yn y cyffiniau.

***Parhewch ar hyd y llwybr drwy ddychwelyd i 'Port Lower Town' a mynd i gyfeiriad y Castell.***






GWEDDILLION TŴR


## 9 Tafarn y Llew Du




Ar ochr arall y ffordd, ychydig i'r dde, mae Tafarn y Llew Du blaenorol h sy'n cynnwys y dyddiad 1589. Mae'n debyg mai dyma'r dyddiad y cafodd ei brynu a'i estyn gan ficer lleol cyfoethog o'r enw John Brickdall.

Mewn gwirionedd mae'n dyddio yn ôl i ganol y 15fed ganrif a daeth yn dafarn yn y 18fed ganrif. Mae'r jacdoeau ar y talcenni yn ychwanegiadau diweddar sy'n cyfeirio at yr enw traddodiadol i bobl a annwyd o fewn muriau Conwy.

***Dychwelyd at y groes ffordd a throi i'r dde i fynd trwy'r ail brif giât yr hen dref - Porth Isaf - (Lower Gate) ac ar y cei.***



TAFARN Y LLEW DU

## 10 Porth Isaf a'r Cei

Mae'r Liverpool Arms wedi ei adeiladu trwy hen furiau'r dref, gyda'r drws cefn tu mewn i'r dref a'r drws ffrynt yn wynebu'r Cei. Achosodd hyn lawer o broblemau i'r awdurdodau trwyddedu a'r heddlu, gan fod meddwon yn gallu dianc yn hawdd rhag cael eu harestio drwy redeg allan o un pen neu'r llall. h Cafodd y dafarn ei henwi gan Gapten John Jones, y perchennog blaenorol a oedd yn rhedeg llong pecyn rhwng Lerpwl a Chonwy yn hanner cyntaf y 19eg ganrif. Dywedir bod ysbryd yno a bod arogl fanila yn golygu bod rhywun ar fin marw!

Adeiladwyd y cei gan William Provis, peiriannydd Thomas Telford, daeth yn lle'r hen gei ar yr Afon Gyffin.

***Cerddwch heibio'r Liverpool Arms a pharhau ar hyd Lower Gate Street.***



PORTH ISAF (LOWER GATE) A'R LIVERPOOL ARMS

Ein Treftadaeth
Our Heritage

# Llwybr Tref Conwy



SGWÂR LANCASTER TUA 1915

© Mr Gareth Griffiths, Stoke-on-Trent

Cymerwch y daith 80-munud hwn o Gonwy i weld rhai o nodweddion mwyaf diddorol y dref gaerog a Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.

Dewch i ddarganfod hanes hynod ddiddorol y dref, o ddechreuadau canoloesol cynnar hyd at y presennol.

Mewn rhai llefydd byddwch yn dod o hyd i HistoryPoints/pwyntiau Hanesyddol h codau QR ar blaciau bychan neu sticeri ffenestr. Defnyddiwch sganiwr QR (ar gael am ddim ar-lein) neu ar eich ffôn symudol neu dabled i gael gwybodaeth fwy manwl neu ewch i www.historypoints.org

Mewn mannau fe welwch i gall byrddau gwybodaeth i'w gweld gerllaw. Os yw eich amser yn brin ac eisiau aros gyda'r daith 80-munud, **gallwch ddilyn yr amseroedd ar y stop wats wrth ochr y testun**.

## Dolenni Pellach

- Lawr lwythwch daith glywedol am Furiau Tref Conwy yn http://www.snowdoniaheritage.info/en/location/146/aberconwy-abbey/
- Ewch i **Itunes** i lawr lwytho ap Cadw Conwy.

historypoints.org
Bringing history to your mobile




## Cyrraedd tref Conwy

### *Gyda char*

**O Landudno** - Dilynwch yr A546 (Gloddaeth Avenue) i Benmorfa, trowch i'r chwith ar y gylchfan a dilynwch y ffordd heibio'r cyrsiau golff a thrwy bentref Deganwy nes i chi gyrraedd y gylchfan fawr. Trowch i'r dde i yrru dros y bont.

**O'r Dwyrain** (Bae Colwyn) dilynwch yr A55 at gyffordd 18, cymerwch allanfa A546 i Gonwy, ewch heibio Tesco i'r gylchfan fawr nesaf a throwch i'r chwith i yrru dros Bont Conwy.

**O'r Gorllewin** (Bangor) dilynwch yr A55 at gyffordd 17, dilynwch yr A547 (Ffordd Bangor) nes i chi gyrraedd muriau tref Conwy, trowch i'r chwith a dilynwch y system un ffordd a'r map ar gyfer parcio.

**O'r De** (Betws y Coed) dilynwch yr A470 i Lan Conwy, ymunwch â'r A55 yna dilynwch gyfarwyddiadau o'r Dwyrain uchod.

*Y cod post ar gyfer y prif faes parcio ARHOSIAD HIR yng Nghonwy (Morfa Bach) yw* **LL32 8FZ**. *Mae taith gerdded mynediad hawdd o'r maes parcio i mewn i dref Conwy a fydd yn dod â chi i Borth y Felin. Gweler y map llwybr.*

***Ar y trên*** - Mae gan Gonwy ei orsaf ei hun, ar brif linell Gogledd Cymru, sy'n ganolog i'r dref ac yn agos at le mae llwybr y dref yn dechrau.

***Ar fws*** - Y prif lwybr yw 5/X5 sy'n rhedeg yn aml rhwng Llandudno, Conwy, Bangor a Chaernarfon. I gael amserlenni ac arosfannau, ewch i www.traveline.cymru

***Ar feic*** - Dilynwch Lwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 5 i Gonwy.




Ein Treftadaeth Our Heritage
CONWY Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Am fwy o wybodaeth am dreftadaeth Conwy a sut i gynllunio eich ymweliad drwy Eryri **www.snowdoniaheritage.info/cy**

Cynhyrchwyd y daflen hon gan Gymdeithas Hanesyddol Aberconwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyda chefnogaeth gan Croeso Cymru.

Dyddiad Cyhoeddi 2016.

© Dylunio a darlunio gan Starfish Design, Llandudno, Conwy.



ADEILADU PONT REILFFORDD - 1848

© Trwy garedigrwydd Gwasanaeth Archifau Conwy

## 14 Tair Pont

Y bont hynaf yw Pont Grog Thomas Telford, a adeiladwyd yn 1822-26. Roedd ei hangen i wella cysylltiadau rhwng Llundain ac Iwerddon, a oedd wedi dod yn rhan o Brydain Fawr trwy Ddeddf Uno yn 1801. Y prif lwybr oedd o Gaer ac roedd yn cynnwys taith fferi beryglus ar draws yr afon Conwy. Adeiladodd Telford ei bont i gyd-fynd â'r castell: mae'r tyrau yn fersiynau llai o dyrau'r castell ac mae'r tollty, ym mhen pellaf y bont, yn gastell barwnol bach.

Adeiladwyd pont reilffordd unigryw Robert Stephenson yn 1846-48. Mae wedi ei wneud o ddau diwb haearn anferth gyda rhychwantau o 400 troedfedd. Mae'r trên cyflym Llundain i Gaergybi, a threnau eraill yn dal i deithio tu mewn i'r tiwbiau. h

Cafodd trydedd Bont Ffordd newydd ei hadeiladu yn 1958. Trafodwyd am flynyddoedd gydag amryw o gynlluniau arfaethedig, gan gynnwys yr awgrym o ddymchwel pont Telford! Gwnaeth y bont fawr ddim i ddatrys problemau tagfeydd traffig aruthrol Conwy ac felly agorwyd ffordd osgoi'r dref, twnnel A55 o dan yr aber yn 1989. Roedd yn dwnnel tiwb tanddwr cyntaf Prydain, wedi ei adeiladu mewn adrannau ar y tir a'i osod ar wely'r aber.

***O'r pontydd, trowch i'r chwith heibio Neuadd y Dref,*** h ***enghraifft o bensaernïaeth Gothig Fictoraidd, ar y gornel, a dychwelyd i'r Ganolfan Groeso a'r maes parcio i gwblhau llwybr y dref.***



TAIR PONT




## 13 Swyddfa'r Harbwr Feistr

Yn ystod y 19eg ganrif roedd Conwy yn borthladd prysur i gludo, llechi, halen a choed yr oedd rhaid talu dyletswyddau arnynt, a Swyddfa'r Harbwr Feistr o'r 19eg ganrif o'ch blaen oedd y Swyddfa Tollau. h

Yn gynyddol, daeth pysgota yn brif weithgaredd yng Nghonwy ac yn fwy diweddar, cychod pleser. Mae'r Tower Coffee House h tu mewn i'r tŵr giât cilddor. Yn wahanol i'r giatiau eraill, roedd y gilddor yn giât syml a chul, a allai fod yn ddefnyddiol i ymosod ar ystlys gelyn yn syml a ceisio mynd i mewn trwy Borth Isaf.

***Trowch i'r dde a chroesi'r ffordd ar y groesfan i gerddwyr ac yna trowch i'r chwith i weld y tair pont ar draws Afon Conwy.***



SWYDDFA'R HARBWR FEISTR






TOWER COFFEE HOUSE



CREGYN GLEISION A CHEI CONWY

© Bert Kauffman

Ein Treftadaeth
Our Heritage

# Llwybr Tref Conwy




CASTELL CONWY
© S. McCarthy

## I Castell Conwy a Muriau'r Dref

***Mae'r daith yn cychwyn yn y Ganolfan Groeso/Gwybodaeth i Dwristiaid ar Stryd Rosehill.***

Cymerwch eiliad i edrych o gwmpas yr arddangosfa am ddim o Dywysogion Gwynedd am drosolwg hynod ddiddorol o hanes canoloesol lleol cyn mynd tuag at y Castell.

Adeiladwyd Castell Conwy gan Frenin Edward I ar ôl iddo drechu Tywysog Cymru Llywelyn ein Llyw Olaf yn 1284. Mae'r campwaith peirianyddol hwn mewn safle gwych ar frigiad creigiog a ddiogelir ar y ddwy ochr gan afonydd Conwy a Gyffin, ac ar yr ochr fewndirol gan ffos fawr. Cyflogwyd mwy na 1,500 o weithwyr o Loegr i'w adeiladu, ac fe'i cwblhawyd mewn dim ond pedair blynedd. Roedd ganddo wyth tŵr ac wedi ei baentio'n wyn yn wreiddiol, felly byddai wedi edrych yn syfrdanol!

Cafodd y dref ei diogelu gan furiau a adeiladwyd ar yr un adeg a'r castell, gan wneud Conwy yr enghraifft orau ym Mhrydain o dref gaerog ganoloesol. Yn wreiddiol roedd tair giât i mewn i'r dref a thyrau wedi eu gosod yn rheolaidd, mae ur an hugain yn parhau.

***Croeswch y maes parcio a chymerwch y grisiau wrth ymyl mynediad y castell ar y muriau a dilynwch y llwybr cerdded uchel ochr yn ochr â'r maes parcio.***

Yn ogystal â chael golygfa dda o'r dref a'r castell o'r muriau, byddwch yn gweld tyllau sgwâr yng ngwaith cerrig y tyrau. Yn wreiddiol yn ôl pob tebyg, tyllau sgaffaldau oedd y rhain, maent nawr yn cael eu defnyddio gan jacdoeau (a cholomennod) ar gyfer nythod. Yn draddodiadol, caiff pobl a anwyd o fewn muriau Conwy eu hadnabod fel "Jacdoeau"!

***Gadewch y muriau wrth y set nesaf o risiau ym mhen arall y maes parcio. Trowch i'r chwith ac ewch o dan furiau'r dref wrth Porth y Felin (Mill Gate).***


JAC-Y-DO

Mae hwn yn un o'r tri mynediad gwreiddiol i'r dref. Trowch i'r dde ac edrychwch i fyny ar frig muriau'r dref.

Yn ymwthio allan mae rhes o ddeuddeg toiled a adeiladwyd yn 1286 i'w defnyddio gan staff ysgrifenyddol y Brenin a staff cwpwrdd dillad.


15 munud


TAI BACH AR WALIAU'R DREF


EGLWYS Y SANTES FAIR A'R HOLL SAINT (SAFLE ABATY ABERCONWY)
© Partneriaid Prosiect Tywysogion Gwynedd


BEDD 'WE ARE SEVEN'

22 munud


Y FFONT
© Partneriaid Prosiect Tywysogion Gwynedd

## 2 Eglwys y Santes Fair a'r Holl Saint

***Ewch yn ôl trwy'r bwa, croeswch y ffordd a chymryd y llwybr wrth ochr y Ganolfan Groeso i Eglwys y Santes Fair.***

Safodd Mynachlog Sistersaidd Aberconwy yn wreiddiol ar y safle yma a chladdwyd Tywysog Cymreig yr 13eg ganrif Llywelyn Fawr yma. Ar ôl y goncwest symudodd Brenin Edward I y mynachod i fyny Dyffryn Conwy i Faenan ac ailadeiladwyd yr eglwys abaty dros y canrifoedd canlynol fel mai ychydig o olion gwreiddiol a erys. Wrth i chi fynd i mewn i'r fynwent fe welwch gawell haearn isel gyda 'We are Seven' arno. Mae hwn yn deitl o gerdd gan Wordsworth y mae ef i fod wedi ysgrifennu ar ôl sgwrs gyda phlentyn y cyfarfu yma. Mae'r 'seven' yn cyfeirio at y plentyn a'i frodyr a chwiorydd, yn fyw ac yn farw. Daeth yn atyniad twristiaeth a'r barau haearn ei rhoi drosto i'w amddiffyn.

***Cerddwch o amgylch yr eglwys i'r chwith.***

Mae'r drws gorllewinol a thair ffenestr bigfain yn olion o hen eglwys yr Abaty. Mae'r brif fynedfa heddiw drwy borth y gogledd, ychydig ymhellach o amgylch y gornel. Y tu mewn mae croglen hyfryd o'r 15fed ganrif a beddrodau teulu'r tirfeddianwyr pwysicaf lleol, Wynn o Wydir, yn cynnwys Sir Robert Wynn a adeiladodd Plas Mawr, y tŷ tref gain ar brif stryd Conwy. Mae hefyd penddelw o John Gibson, cerflunydd Fictoraidd adnabyddus a aned yng Nghonwy ac sydd heddiw yn fwy adnabyddus am ei angel garreg sinistr yn y gyfres deledu Doctor Who.

***Gadewch y fynwent drwy'r giât wrth y drws gorllewinol a throi i'r dde i mewn i Sgwâr Lancaster.***





CERFLUN LLYWELYN FAWR
© Hawlfraint y goron (2016) Croeso Cymru

## 3 Sgwâr Lancaster

Yng nghanol y sgwâr mae cerflun o Llywelyn Fawr. Y brif ffordd drwy'r sgwâr yw Ffordd Bangor, a adeiladwyd gan Thomas Telford yr un pryd â'r Bont Grog. Gwnaed agoriad ym muriau'r dref ar gyfer y ffordd.

***Trowch i'r dde allan o'r sgwâr tuag at y giât newydd.***

Ar gornel Stryd Porth Uchaf mae tŷ cwrw 'The Albion' Cafodd yr Albion ei adeiladu yn yr 1920au ar safle tafarnau cynharach a oedd yn safleoedd cyfleus ger Porth Uchaf, un o fynedfeydd gwreiddiol y dref ychydig i fyny'r bryn. Mae gan yr Albion ffitiadau Art Deco ac Art Nouveau diddorol.

***Os oes gennych chi amser, mae mynediad arall i'r rhodfa uchel ar hyd muriau'r dref ger Porth Uchaf. Fel arall, trowch i'r dde i Stryd y Capel.***

## 4 York Place

YORK PLACE

Y tu ôl i orsaf yr heddlu mae York Place. Caiff hwn ei enwi ar ôl Dr John Williams, Archesgob Efrog, a chwaraeodd ran bwysig yn ystod Y Rhyfel Cartref rhwng y Brenin Charles I ag Oliver Cromwell. Ganwyd Archesgob Williams yng Nghonwy ond dim ond rhannau o furiau ei gartref sydd bellach ar ôl. Gallwch ddarllen mwy am ei helyntion yn y Rhyfel Cartref ar y bwrdd gwybodaeth.

35 munud


TŶ ABERCONWY
© Delweddau Ymddiriedolaeth Genedlaethol/Matthew Antrobus


ADRAN PREN YCHWANEGWYD


## 8 Tŷ Aberconwy

Ar gornel y Stryd Fawr mae Tŷ Aberconwy, tŷ Masnachwr o'r 15fed ganrif. Cyfunodd seler i storio nwyddau gydag ystafelloedd byw uwchben. Mae'n debyg iddo gael ei adeiladu oddeutu 1420 ar ôl gwrthryfel Owain Glyndŵr. Cipiwyd Castell Conwy am gyfnod byr gan gefnogwyr Glyndŵr a dinistriwyd nifer o adeiladau'r dref.

Daeth ail hanner y 15fed ganrif ac aflonyddwch pellach pan gafodd uchelwyr Cymru eu tynnu mewn i ffraeon llinachol Rhyfel y Rhosynnau. Ond yn 1485 daeth y Rhyfeloedd i ben trwy esgyniad Brenin y Tuduriaid Harri VII. Roedd Harri Tudur yn disgyn o deulu o Ynys Môn ac roedd y Cymry yn awyddus i fanteisio ar y cysylltiad Cymreig a gwlad fwy sefydlog yn wleidyddol i wneud eu ffortiwn yn y llys yn Llundain neu mewn masnach. Estynnwyd Tŷ Aberconwy mae'n debyg yr adeg hon pan ychwanegwyd yr adeilad uchaf o ffrâm goed.

## 7 Stryd Fawr

Adeiladwyd y rhan fwyaf o'r adeiladau ar y Stryd Fawr yn y 19eg ganrif gan ailosod tai cynharach na adeiladwyd yn dda, tai ffrâm bren, siopau a thafarndai. Ar brydiau yn y 18fed a'r 19eg ganrif roedd dros 50 o dafarndai yng Nghonwy, a oedd yn dref bwysig ar hyd llwybrau masnach rhwng Lloegr ac Iwerddon. Mae'r Mail Coach inn yn atgof o pan fyddai gwasanaeth post Llundain i Gaergybi yn dilyn y ffordd yma i Iwerddon hyd nes i'r rheilffordd ddisodli'r coetsis a dynnwyd gan geffylau. Yr ardd gwrw bresennol oedd yr iard ar gyfer y ceffylau a'r coetsis. The Castle Hotel, gwesty arddull Jacobeaidd Fictoraidd, a ddisodlodd tafarn hen ganoloesol. Yn 1935 cafodd hen adeiladau eu dymchwel i adeiladu cyn Sinema'r Palace, sydd wedi ei flaenu gan adeilad mynediad gyda thalcenni grisiog i gysoni gyda Phlas Mawr. Cafodd ei gynllunio gan y pensaer Sidney Colwyn Foulkes. Nodwch yn y talcen y gwiwerod a pheunod dros agoriad ffenestr dal.


FFENESTR GWIWEROD A PHEUNOD
© Rhodri Clark

***Trowch i'r dde i mewn i Stryd y Castell.***


STRYD FAWR
© Rhodri Clark


PLAS MAWR


ADDURNIADAU TU MEWN
© Hawlfraint y goron (2016) Croeso Cymru

© Rob Farrow

40 munud

## 6 Plas Mawr

Yr adeilad nesaf ar hyd Lôn y Goron yw Plas Mawr, a adeiladwyd ar gyfer Robert Wynn o Gastell Gwydir, Llanrwst, yn 1576-80. Gallwch weld ei arfbais a'r dyddiad uwchben un o'r ffenestri. Mae'n dŷ trawiadol iawn i dref fechan fel Conwy ac yn arwydd o gyfoeth â phwysigrwydd y teulu Wynne a wnaeth eu ffortiwn yn y llys Tuduraidd. Mae Plas Mawr wedi cael ei adfer yn ofalus ac yn ddiddorol yn y ffordd mae dylanwad Dadeni wedi cael eu dehongli, yn ar adeilad bell i ffwrdd o Lundain. Mae'n cael ei reoli gan Cadw ac mae'n werth ymweld ag o.

***Ewch ymlaen i lawr Lôn y Goron i Stryd Fawr & droi i'r chwith.***


YR ACADEMI FRENHINOL GYMREIG


© Conwy County Borough Council

## 5 Yr Academi Frenhinol Gymreig

***Parhewch ar hyd Stryd y Capel nes i chi gyrraedd Lôn y Goron ar y dde.***

Yr adeilad ar y gornel yw'r Academi Frenhinol Gymreig sy'n gartref i waith artistiaid cyfoes Cymreig. Fe'i sefydlwyd yn 1881 gan grŵp o artistiaid Cymraeg a sefydlodd nythfa ym Metws y Coed a phentrefi eraill yn Nyffryn Conwy. Nid oedd sicrwydd y byddai'r academi yn dod o hyd i gartref parhaol yng Ngogledd Cymru. Roedd rhai pobl yn ffafrio De Cymru ond gwnaed penderfyniad pan gynigodd Arglwydd Mostyn, a oedd yn berchen ar Plas Mawr, gartref i'r artistiaid yno. Symudodd yr Academi i'r capel wedi ei addasu yn 1993.

© Dylunio a darlunio gan Starfish Design, Llandudno, Conwy.